PWYLLGOR PENODIADAU - CYFARWYDDWR GWASANAETHAU OEDOLION, TAI A CHYMUNEDAU

DYDD MAWRTH, 15 RHAGFYR 2020

| | |
|---|---|
| Yn bressenol: | Cynghorydd (Cadeirydd) |
| | Cynghorwyr Carter, Elsmore, Jones-Pritchard, Mackie a/ac Lynda Thorne |

1 : ETHOL CADEIRYDD

Penodwyd y Cynghorydd Lynda Thorne yn Gadeirydd y Pwyllgor.

2 : YMDDIHEURIADAU

Dim.

3 : DATGAN BUDDIANNAU

Derbyn datganiadau buddiannau yn unol â Chod Ymddygiad yr Aelodau

4 : CYLCH GORCHWYL

Nodwyd y Cylch Gorchwyl fel a ganlyn:

*"Cyflawni swyddogaethau'r awdurdod mewn perthynas â phenodi a diswyddo Prif Swyddogion a Dirprwy Brif Swyddogion (fel y'i diffinnir yn Rheoliadau Awdurdodau Lleol (Gorchmynion Sefydlog) (Cymru) 2006) a Phennaeth statudol y Gwasanaethau Democrataidd, yn unol â Rheolau Gweithdrefnau Cyflogaeth ac unrhyw bolisïau a gweithdrefnau perthnasol eraill y Cyngor".*

5 : GWAHARDD Y CYHOEDD

PENDERFYNWYD: Gwahardd y cyhoedd yn ystod y drafodaeth ar yr eitem busnes ganlynol ar y sail, pe byddai aelodau'r cyhoedd yn bresennol yn ystod y drafodaeth, oherwydd natur y busnes i'w drafod, datgelid iddynt wybodaeth a eithrir fel y'i diffinnir yn Rhan 4 Atodlen 12A Deddf Llywodraeth Leol 1972 ac fel y'i diffinnir isod:-

Paragraff 12 – Gwybodaeth sy'n berthnasol i ymgeisydd yn dod yn gyflogai'r Awdurdod; a

Pharagraff 13 - Gwybodaeth a oedd yn debygol o ddatgelu pwy yw unigolyn.

6 : PENODI CYFARWYDDWR GWASANAETHAU OEDOLION, TAI A CHYMUNEDAU

Cafodd y Pwyllgor Penodi ei ymgynnull i ystyried rhestr hir yr ymgeiswyr ar gyfer penodi i'r swydd Cyfarwyddwr Gwasanaethau Oedolion, Tai a Chymunedau.

Adolygodd y Pwyllgor y 6 cais a gyflwynwyd ac ystyriodd sut yr oedd pob ymgeisydd yn bodloni'r galluoedd hanfodol yn y Fframwaith Galluoedd Ymddygiadol a'r Proffil Rôl; a phenderfynwyd pa ymgeiswyr a âi ymlaen i gael eu hasesu.

PENDERFYNWYD – Bod Ymgeiswyr 15097, 15083, 15048, 15090 yn cael eu cyflwyno ar gyfer asesiad.

## 7 : DISWYDDO (OS OES ANGEN)

Dim eu hangen

## 8 : DYDDIAD Y CYFARFOD NESAF